


CYNGOR TREF PORTHMADOG



6ed o Hydref 2020


Annwyl Gynghorydd,

Gwysir chi i gyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref am 7:00 yr hwyr Nos Fawrth, 13eg o Hydref 2020 drwy gyfrwng zoom – I gael y cyfeirnod ar gyfer mynediad, cysylltwch a Chadeirydd y Cyngor.

RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau.**
2. **Adroddiad y Cadeirydd.**
3. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod blynyddol (15fed o Fedi 2020).**
4. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod rheolaidd diwethaf (15fed o Fedi 2020).**
5. **Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.**
6. **Materion i'w dwyn gerbron :**
 - Cyng. Carol Hayes - Gan nad oes unrhyw sicrwydd o bryd fydd y gwaith adnewyddu a gwella gan Gyngor Gwynedd na'r Cynulliad yn cychwyn oherwydd covid -19, cynigir ein bod yn trefnu i atgyweirio'r difrod gan fandaliaeth i safle bws ger y rheilffordd fel mater brys.
 - Cyng. Carol Hayes – cynnig trafod canfod lleoliad gwell ar gyfer y potiau blodau ger Thedford House yn dilyn y fandaliaeth ddiweddar.
 - Cyng. Selwyn Griffiths – codi 10% ar bris parcio ar draeth Morfa Bychan.
 - Cyng. Aled Griffith –
 - Cyng. Seimon Brooks – Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i holi ai'r Cyngor biau'r tir lle gosodir hysbysfwrdd Borth-y-Gest ac ai'r Cyngor biau'r hysbysfwrdd ac i holi a wŷr y Cyngor pwy sydd efo'r hawl i osod posteri a negeseuon ar yr hysbysfwrdd.
7. **Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. (Dyddiad cau Rhaglen mis Tachwedd 2020 – 3ydd o Dachwedd 2020).**
8. **Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).**
9. **Gohebiaeth :**
 - 1) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – Gwasanaethau bws Ysbyty Alltwen (ymateb i lythyr rhaglen Ionawr , cof. 201).
 - 2) Rhian Williams,CG - lloches bws ger Tesco (ymateb i lythyr rhaglen Chwefror).
 - 3) Vaughan Gethin AS – gwasanaethau fasciwlwr (ymateb i lythyr rhaglen Mawrth cof. 251).

CYNGOR TREF PORTHMADOG



- 4) Sian Jones, CG – grantiau ‘Visit Wales’ (ymateb i lythyr rhaglen Mawrth cof. 249).
- 5) Lucy Dale , Calonnau Cymru – diffibrilwyr.
- 5a) Thomas Huws, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru – diffibrilwyr.
- 6) Cyngor Tref Nefyn – tai i bobl lleol.
- 7) Cyfoeth Naturiol Cymru – mynediad i Gae Chwarae Bodawen.
- 8) Arglwydd Dafydd Elis-Thomas – diffyg tai fforddiadwy (ymateb i lythyr rhaglen Medi, cof.14).
- 9) Adran Amgylchedd,CG – hysbysiad o fwriad i ddymchwel Tŷ Moelwyn.

10. Materion Ariannol :

Biliau i’w talu :

Scottish Power – trydan Nadolig 28.6.20 – 17.9.20	=	£14.79
Xerox Finance – llogi llungopiwr 1.11.20- 31.1.2021	=	£126.00
Yr Wylan – hysbyseb swydd y Clerc	=	£16.00
Alan G Jones – giat bren newydd i Cae Chwarae Bodawen	=	£360.00
Glenda Burke – cyflog Clerc mis Medi 2020	=	£603.20
Cyllid a Thollau EM – treth incwm ac yswiriant gwladol Chwefror 2020	=	£150.80
Glenda Burke – postio ffurflen flynyddol a dogfennau archwiliwr BDO (£2.94), inc ar gyfer y printer Medi (£16.49)	=	£19.43

Derbyniadau:

Llog Banc Medi 2020	=	£0.29
---------------------	---	-------

11. Ceisiadau Cynllunio

- i) **Cais C20/0683/44/LL - Tir gyferbyn a Arfryn Tremadog,LL49 9RN**
Cais ar gyfer codi tŷ unllawr.

Yn gywir,

Gwilym Jones
Cadeirydd Cyngor Tref Porthmadog